# Deiseb Heddwch Menywod

## Gweithgaredd Cynradd 1



## Rhoi'r Stori at ei Gilydd

WCIA

Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 1 Lansio'r Ddeiseb

Lansiwyd Apêl Heddwch Menywod Cymru i America yn swyddogol mewn 'Cynhadledd Cymru i Ferched' a gynhaliwyd yn yr Hen Goleg, Prifysgol Aberystwyth ar 23 Mai, 1923 fel rhan o Gynhadledd Undeb ehangach Cynghrair y Cenhedloedd Cymru.



WOMEN OF WALES AND PEACE.

ORGANISING OF MEMORIAL TO AMERICA.

A public conference of the women of Wales was held on Wednesday afternoon in the Examination Hall of the University College.

Mrs. Peter Hughes-Griffiths, who presided, said the women of Wales had to consider, suggest and plan what they could do to promote world peace, and surely women had never had a greater problem to face. But it was their sacred duty to face it, a duty entrusted to them by those who were no longer with them and a duty which they as mothers of the oncoming generations could not ignore. "We will not flinch or fail until we have made war impossible," she concluded.

Adroddiad papur newydd o Gynhadledd Merched Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (WLNU), Aberystwyth – Mai 1923



—AT ABERYSTWYTH.



Mrs. Peter Hughes-Griffiths, who conveyed the Welsh Women's Appeal to Count Bernstorff, the German delegate, who was Ambassador to America at the outbreak of the war.—(South Wales News.)

Mrs Annie Hughes Griffiths yn cynrychioli menywod Cymru yn Aberystwyth.

**Am wybodaeth bellach am y lansiad a'r gynhadledd gweler:**
[https://www.wcia.org.uk/academi-heddwch-cymru/otd-23-may-1923-the-aberystwyth-conference- of-women-for-world-peace/](https://www.wcia.org.uk/academi-heddwch-cymru/otd-23-may-1923-the-aberystwyth-conference-of-women-for-world-peace/)

# 2 Cymru ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf



Dychmygwch eich bod yn byw yng Nghymru yn y 1920au. Bu farw tua 40,000 o Gymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf - dynion yn y lluoedd arfog yn bennaf - ac effeithiwyd ar bob cymuned ar draws Cymru. Collodd y rhan fwyaf o deuluoedd o leiaf un person – gŵr, brawd, mab.....

Oherwydd hyn, gweithiodd pobl yn galed iawn yn ystod y 1920au i greu heddwch cynaliadwy. Fe welwch isod rai o'r pethau a ddigwyddodd yn ystod y degawd hwnnw.



WELSH EFFORTS FOR WORLD PEACE,

1920–1927.

The CHILDREN OF WALES were the first to send by Wireless a greeting of goodwill to all other children in every land under the sun.

The WOMEN OF WALES were the first to send a message of Peace from the homes of one people to the homes of another.

The TEACHERS OF WALES were the first to teach the principles of the League of Nations in the schools.

The CHURCHES OF WALES were the first to make an annual offering in furtherance of World Peace.

LEADERS OF RELIGION IN WALES were the first to present a Memorial to Leaders of Religion in America on behalf of the League of Nations.

Adroddiad Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, 1927




Trefnwyd Pleidlais Heddwch ar draws y Deyrnas Unedig (DU) yn 1935 i ddarganfod beth oedd barn pobl am heddwch a'r drefn ryngwladol. Dangosodd y canlyniadau fod y rhan fwyaf o bobl am i Brydain barhau i fod yn aelod o Gynghrair y Cenhedloedd a bod y mwyafrif o blaid diarfogi.

Pleidleisiodd dros 1 miliwn o bobl yng Nghymru yn y bleidlais hon – 62.3% o'r rhai oedd yn gallu pleidleisio ar y pryd.

**Am fwy o wybodaeth am Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (yr WLNU) a'r Bleidlais Heddwch, gweler:**
www.wcia.org.uk/wlnu

# 3 Dychwelyd – ac Effaith y Daith

Dychwelodd dirprwyaeth y menywod i'r DU ddiwedd mis Mawrth 1924. Sut allwn ni fesur effaith y ddeiseb a'u Taith Heddwch? Gwnaed cysylltiadau cryf â grwpiau heddwch yn yr Unol Daleithiau, ac ym mis Ionawr 1925, cynhaliwyd Cynhadledd Merched America ar Achos a Gwellhad Rhyfel. Parhaodd menywod i fod yn weithgar er mwyn hyrwyddo heddwch yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang yng Nghymru a'r DU hefyd, ac ym 1926 trefnwyd Pererindod Genedlaethol gan Ferched dros Heddwch, a orffennodd gyda rali yn Llundain ym mis Mehefin 1926. Cynhaliwyd cynhadledd ddiarfogi'r byd yng Ngenefa yn 1931 – 32. Oni bai am gynnydd Natsïaeth yn yr Almaen, efallai y byddai digwyddiadau'r byd wedi cymryd tro gwahanol iawn....




Merched yn cymryd rhan ym Mhererindod Heddwch Gogledd Cymru, 1926

**Geneva Conference**



Arthur Henderson speaking at the conference on 2 February 1932

| | |
|---|---|
| **Begins** | 1 February 1932 |
| **Ends** | November 1934 |
| **Location(s)** | Geneva |
| **Coordinates** | 46.2044° N, 6.1432° E |
| **Country** | Switzerland |
| **Participants** | 31 nations |
| **Organised by** | League of Nations |

**Darganfyddwch fwy am ymgyrchoedd dros heddwch a chydweithrediad rhyngwladol yma:**

**Canfyddiadau'r gynhadledd ar Achos a Gwellhad Rhyfel, 1925:** https://awpc.cattcenter.iastate.edu/2018/10/05/findings-of-the-conference-on-the-cause-and-cure-of-war-1925/

**Pererindod Heddwch Menywod Gogledd Cymru:** https://wciavoices.wordpress.com/2016/06/01/north-wales-womens-peace-march-1926/

**Cynhadledd Diarfogi'r Byd:** https://en.wikipedia.org/wiki/Conference_for_the_Reduction_and_Limitation_of_Armaments

# 4 Casglu'r Enwau

Rhwng Mehefin a Thachwedd cynhaliwyd y prif waith o gasglu 390,296 o lofnodion i'r ddeiseb. Cafodd hyn ei gydlynu i raddau helaeth drwy drefnwyr Sir a Chymuned Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru ac mae'n rhaid ei fod wedi golygu llawer o gnocio ar ddrysau!

Cerfiwyd cist fawr, yn barod i gartrefu'r llofnodion ar eu taith ar draws yr Iwerydd. Teithiodd Mary Ellis, un o ddirprwyaeth heddwch y merched, i America i wneud trefniadau ar gyfer y Daith Heddwch a oedd i'w chynnal yng Ngwanwyn 1924. Roedd y llwyfan wedi'i osod ar gyfer antur draws-Iwerydd wych!



OAK CHEST (BUILT TO THE DESIGN OF MR. J. A. HALLAM) IN WHICH THE SIGNATURE FORMS WERE CONVEYED TO AMERICA
THE OAK CHEST IS NOW IN THE NATIONAL MUSEUM, WASHINGTON

Y gist dderw a gerfiwyd yn arbennig i gynnal Deisebau Heddwch y Merched ar eu taith ar draws yr Iwerydd.

**Beth yw ystyr y gair 'deiseb'? Beth yw 'dirprwyaeth'?**

**Beth oedd y menywod yn gofyn amdano?**



when the United States of America decided to enter the World War and make common sacrifice with us. It is the recollection of the comradeship between an American citizen and a son of Wales in the cause of Peace, together with the knowledge of our joint sacrifice in the agony of War that emboldens us to address to you this Appeal.

as real as the responsibility is grave. We would, therefore, appeal to you, Women of the United States of America, "with malice towards none, with charity for all, with firmness in the right as God gives us to see the right" to aid in the effort to hand down to the generations which come after us the proud heritage of a warless world.

| NAME. | ADDRESS. |
|---|---|
| Emily Reynolds | 1 Velindra Road. Whitchu[rch] |
| E. A. Jones | 3 Velindra Road Whitch[urch] |
| R. Jones | " " " " " " |
| G. R. Haine | 7 Velindre Road - Whitchurch |
| [illegible] | 41. Richmond Rd. Cardiff. |
| M. E. Barris | 21 Velindre Rd Whitchurch |
| E. Bailey. | " " " " |
| M. R. Scott | 'Hillbrook.' Velindra Rd. |
| [illegible] | 19 Velindra Rd Whitchurch |
| A. M. Evans. | 25. Velindra Rd. Whitchur[ch] |
| [illegible] | 27 Velindra Rd Whitchurch |
| E. [illegible] | [illegible] |
| M. B. Jones | 29 Velindre [illegible] " |

Tudalen enghreifftiol o'r ddeiseb yn dangos rhai llofnodion



Wrth roi holl dudalennau'r ddeiseb at ei gilydd, byddent wedi ymestyn dros 7 milltir!

**Am fwy o fanylion, gweler llinell amser Deiseb Heddwch y Merched yma:**
[www.wcia.org.uk/womens-centenary-timeline/](www.wcia.org.uk/womens-centenary-timeline/)

# 5 Dechrau Syniad Mawr...

Gwilym Davies (cyd-sylfaenydd Cynghrair y Cenhedloedd Cymru a sylfaenydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da oddi wrth blant Cymru i blant y byd) a soniodd gyntaf am y syniad o ddeiseb heddwch i ferched fel rhan o ymgyrchoedd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd mewn llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf, 1922. Gellir gweld rhan o destun y llythyr hwn isod.



there can be no reason whatever. And I want to suggest to our Executive Committee that we ask the Women in Wales to organise a memorial which shall be taken round from house to house in every town and in every village and in every hamlet in the Principality, a Memorial from the Women of Wales to the Women of America, asking for the sake of [illegible] our homes and [illegible] our children that America should

Darn o lythyr a ysgrifennwyd gan Gwilym Davies ar 3ydd Gorffennaf, 1922




Llun o Gwilym Davies ar glawr Neges Heddwch ac Ewyllys Da, 1961

**Beth oedd 'syniad mawr' Gwilym Davies'?**

**Beth yw ystyr y gair 'memorial', yn eich barn chi?**

**Beth arall y mae Gwilym Davies yn enwog amdano yng Nghymru?**

**Am fwy o wybodaeth am linell amser y Ddeiseb Heddwch i Fenywod, gweler:**
[www.wcia.org.uk/womens-centenary-timeline/](http://www.wcia.org.uk/womens-centenary-timeline/)

# 6 Y Daith ar draws America

Cynhaliwyd Dirprwyaeth Heddwch y Menywod dan arweiniad Mrs Annie Hughes Griffiths (Cadeirydd yr WLNU) ym mis Chwefror – Mawrth 1924. Cychwynnodd y merched o Lerpwl ar fwrdd yr RMS Cedric ar 2il Chwefror, a chyrhaeddon nhw Efrog Newydd ar 11eg. Aeth eu taith â nhw draw i Los Angeles ar Arfordir y Gorllewin, ac yna yn ôl i Efrog Newydd erbyn 19 Mawrth. Er iddynt gyfarfod ag Arlywydd yr Unol Daleithiau Calvin Coolidge, prif nod yr ymweliad oedd siarad â grwpiau heddwch menywod yn America a chasglu eu cefnogaeth i'r ddeiseb, fel y byddai eu llywodraeth yn ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig iawn er mwyn osgoi rhyfel byd arall.




**Taith y Menywod:**

**1 -** Efrog Newydd
**2 -** Washington
**3 -** Chicago
**4 -** Salt Lake City
**5 -** San Francisco
**6 -** Los Angeles
**7 -** Arizona
**8 -** Colorado
**9 -** Rhaeadr Niagara
**10 -** Utica




RMS Cedric – y llong yr hwyliodd y merched arni i America.

**I ddilyn hanes personol Annie ar ei thaith ar draws yr Unol Daleithiau, gweler ei dyddiadur a'r trawsgrifiad yma:**
[https://www.flickr.com/photos/129767871@N03albums/72157680212085978](https://www.flickr.com/photos/129767871@N03albums/72157680212085978)

# Deiseb Heddwch Menywod Cymru
## Bwrdd Stori